PWYLLGOR SAFONAU

HYSBYSIAD PENDERFYNIAD

Cyfeirnod achos OGCC:	202405940 a 202407229
Yr Aelod dan Sylw:	Cynghorydd Arwel Roberts
Awdurdod perthnasol:	Cyngor Tref Rhuddlan
Achwynydd:	Mr. Robert Williams
Dyddiad y gwrandawiad:	8fed Hydref 2026
Dyddiad y penderfyniad:	16eg Hydref 2026

1. Cyflwyniad

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer achosion rhif 202405940 a 202407229, ynghylch achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad statudol gan y Cynghorydd Arwel Roberts o Gyngor Tref Rhuddlan.

Roedd y cŵyn yn ymwneud â chyfranogiad y Cynghorydd Roberts mewn penderfyniadau ynghylch cynnig gan Glwb Pêl-droed Rhuddlan i ddefnyddio a datblygu Maes Chwarae'r Admiral, sydd wrth ymyl ei gartref.

Mae pŵer y Pwyllgor i benderfynu ar y mater yn deillio o adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a rheoliad 7 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon yr achosion honedig canlynol o dorri'r Cod:

Darpariaeth y Cod	Mater
6(1)(a)	Rhaid i Aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu ar eu hawdurdod.
8(a)	Rhaid i Aelodau pan fyddent yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eu hawdurdod.

12(1)	Os bydd gan Aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef bydd ganddynt hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eu barn ynghylch buddiant cyhoeddus.
14(1)(a)	Os bydd gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ollyngiad gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal.
14(1)(c)	Os bydd gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ollyngiad gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw.
14(1)(e)	Os bydd gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ollyngiad gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, beidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid iddynt roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

2. Dogfennau a Thystiolaeth a Ystyriwyd

2.1 Adroddiad ymchwiliad yr Ombwdsmon dyddiedig 26fed Mawrth 2026, gan gynnwys ei atodiadau a'i fwndel tystiolaeth.

2.2 Crynodeb cyhoeddedig yr Ombwdsmon o achosion 202405940 a 202407229.

2.3 Recordiad sain a thrawsgrifiad cyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan a gynhaliwyd ar 14eg Mawrth 2024.

2.4 Sylwadau ysgrifenedig a llafar gan yr Ombwdsmon.

2.5 Sylwadau ysgrifenedig a llafar gan y Cynghorydd Roberts.

2.6 Canllawiau Sancsiynau Panel Dyfarnu Cymru, os ystyriwyd sancsiwn.

3. Crynodeb o'r Ffeithiau

3.1 Ar 23ain Ionawr 2024, gofynnodd Clwb Pêl-droed Rhuddlan i Gyngor Tref Rhuddlan ystyried datblygu cyfleusterau pêl-droed ar lawr gwlad a symud ei dîm oedolion o'i gae presennol (Pengwern) i Faes Chwarae'r

Admiral. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan ar 8fed Chwefror 2024.

3.2 Roedd gan y Cyngor Tref un ar ddeg o aelodau; roedd tri aelod (gan gynnwys y Cynghorydd Roberts) yn byw drws nesaf i Faes Chwarae'r Admiral. Roedd un o'r aelodau a oedd yn byw drws nesaf i'r cae hefyd yn berthynas agos i Faer y Cyngor Tref ar y pryd.

3.3 Yng nghyfarfod 8fed Chwefror 2024, datganodd y Cynghorydd Roberts fuddiant personol am fod ei gartref yn agos at yr ystafelloedd newid arfaethedig ac ymatalodd rhag pleidleisio yn y cyfarfod hwnnw.

3.4 Cytunodd y Cyngor mewn egwyddor i Glwb Pêl-droed Rhuddlan ddefnyddio'r cae o 5 pleidlais i 4, yn amodol ar gynnig manylach.

3.5 Ar ôl cyfarfod 8fed Chwefror 2024, gofynnodd y Cynghorydd Roberts i'r Swyddog Monitro, drwy e-bost dyddiedig 9fed Chwefror 2024, am eglurhad ynghylch y Cod Ymddygiad a buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu.

3.6 Cynghorodd y Swyddog Monitro wedyn ar 11eg Chwefror 2024 y gallai buddiant sy'n effeithio ar eiddo neu fwynhad cynghorydd fod yn bersonol; ac y dylai'r aelod wedyn ofyn iddo'i hun a fyddai 'aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth am y ffeithiau yn rhesymol yn ystyried bod eich buddiant mor arwyddocaol fel y byddai'n rhagfarnu eich barn ar les y cyhoedd'. Cynghorodd y Swyddog Monitro, os mai ie oedd yr ateb, y dylai'r aelod ddatgan hynny, gadael y cyfarfod a pheidio â chymryd rhan na phleidleisio. Cynghorodd y Swyddog Monitro mai mater o farn i bob aelod oedd y penderfyniad hwn.

3.7 Ceisiodd y Maer wedyn ailystyried penderfyniad 8fed Chwefror 2024 i ganiatáu, mewn egwyddor, i Glwb Pêl-droed Rhuddlan ddefnyddio'r cae.

3.8 Dosbarthwyd Cynnig Arbennig i chwe aelod o'r Cyngor a oedd wedi cytuno i'w gefnogi, gan nodi bod penderfyniad mis Chwefror wedi'i wneud yn rhy frysiog.

3.9 Cefnogodd chwe chynghorydd y cynnig arbennig, gan gynnwys y Cynghorydd Roberts a'r ddau gynghorydd arall a oedd yn byw drws nesaf i'r cae.

3.10 Yna daeth cais Clwb Pêl-droed Rhuddlan i ddefnyddio Maes Chwarae'r Admiral yn ôl gerbron cyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan ar 14eg Mawrth 2024. Yn y cyfarfod hwnnw, datganodd y Cynghorydd Roberts fuddiant personol am ei fod yn byw drws nesaf i'r cae.

3.11 Holodd cynghorwyr eraill a ddylid caniatáu i aelodau a oedd yn byw'n agos at y cae gymryd rhan a phleidleisio ar y mater.

3.12 Mewn ymateb i'r cwestiynau hynny, dywedodd y Maer fod pum datganiad o fuddiant, a'u bod i gyd yn 'breifat', a bod y Swyddog Monitro wedi rhoi sicrwydd iddynt y gallent gymryd rhan a phleidleisio.

3.13 Nid oedd cyngor ysgrifenedig y Swyddog Monitro yn mynegi unrhyw gasgliad ynghylch a oedd gan unrhyw aelod unigol fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu. Yn hytrach, roedd yn nodi'r broses berthnasol a'r prawf gwrthrychol yr oedd yn rhaid i bob aelod eu cymhwyso i'w amgylchiadau ei hun er mwyn pennu natur a graddau unrhyw fuddiant a'r camau dilynol sy'n ofynnol o dan y Cod Ymddygiad.

3.14 Cynigiodd y Cynghorydd Roberts ddarllen cyngor e-bost y Swyddog Monitro ynghylch buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, ond ni chaniataodd y Maer hyn a symudodd yn syth at y bleidlais.

3.15 Pleidleisiodd y Cyngor 6–4 i wrthod cais Clwb Pêl-droed Rhuddlan. Y chwe chynghorydd a gefnogodd y gwrthodiad oedd yr un chwech a oedd wedi cefnogi'r cynnig arbennig, gan gynnwys y Cynghorydd Roberts a'r ddau gynghorydd arall a oedd yn byw drws nesaf i'r cae.

3.16 Dywedwyd wrth yr aelodau fod y mater wedi'i gau am chwe mis.

4. Penderfyniad

Penderfynodd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Roberts wedi torri'r Cod Ymddygiad fel y nodir yn Adroddiad Ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Er i'r Cynghorydd Roberts ddatgan buddiant personol yng nghyfarfod 8fed Chwefror 2024 ac ymatal rhag pleidleisio, methodd â datgan buddiant sy'n rhagfarnu. Methodd hefyd â datgan buddiant sy'n rhagfarnu yng nghyfarfod 14eg Mawrth 2024, a arweiniodd at fethu â rhoi ystyriaeth briodol i les y cyhoedd, a'r camau a gymerwyd wedi hynny mewn perthynas â'r penderfyniad ar gynnig Clwb Pêl-droed Rhuddlan i ddefnyddio a datblygu Maes Chwarae'r Admiral.

Yn benodol, penderfynodd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Roberts wedi methu â chydymffurfio â'r paragraffau canlynol o'r Cod Ymddygiad:

Darpariaeth	Canlyniad	Canfyddiad / rheswm y Pwyllgor
6(1)(a)	TORRIAD O'R COD	Methiant i ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu, sydd wedi dwyn anfri ar y Cyngor.
14(1)(a)	TORRIAD O'R COD	Methiant i dynnu'n ôl o'r cyfarfodydd ar 8fed Chwefror 2024 a 14eg Mawrth 2024 pan oedd ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu.
14(1)(c)	TORRIAD O'R COD	Ceisio dylanwadu ar y penderfyniad er gwaethaf y buddiant sy'n rhagfarnu yng nghyfarfod 8fed Chwefror 2024, drwy gefnogi'r Cynnig Arbennig wedi hynny, ac yng nghyfarfod 14eg Mawrth 2024.
14(1)(e)	TORRIAD O'R COD	Gwneud sylwadau llafar yng nghyfarfod 14eg Mawrth 2024, er gwaethaf y buddiant sy'n rhagfarnu.

Rhoddwyd ystyriaeth i baragraff 8(a) (rhagbenderfynu). Dywedodd y Cynghorydd Roberts iddo fynd i gyfarfod 8fed Chwefror â meddwl agored a honnodd nad oedd wedi penderfynu sut i bleidleisio nes iddo wrando ar y drafodaeth yng nghyfarfod mis Mawrth. Pan ysgrifennodd at y Swyddog Monitro am gyngor, roedd y Cynghorydd Roberts wedi cynnwys cwestiwn ynghylch a ellid dod â'r mater yn ôl i gyfarfod mis

Mawrth ac “could I vote against it please?”, a oedd yn awgrymu ei fod wedi penderfynu cyn cyfarfod mis Mawrth.

Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor Safonau â phenderfyniad yr Ombwdsmon ar hyn, gan mai’r methiant difrifol i ddatgan buddiant sy’n rhagfarnu yng nghyfarfod 8fed Chwefror ac wedi hynny yw’r prif doriad y mae popeth arall yn deillio ohono. Pe bai’r Cynghorydd Roberts wedi datgan buddiant sy’n rhagfarnu, byddai wedi gadael yr ystafell ac ni fyddai wedi cyfrannu o gwbl yng nghyfarfod mis Chwefror; byddai wedi datgan buddiant sy’n rhagfarnu ac ni fyddai wedi cefnogi nac ymwneud â’r cynnig arbennig; a phe bai’r mater wedi dod yn ôl i gyfarfod mis Mawrth, byddai hefyd wedi gadael yr ystafell, ac felly ni fyddai wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd nac wedi pleidleisio.

5. Rhesymau dros y Penderfyniad

5.1. Buddiant personol a buddiant sy’n rhagfarnu

Ystyriodd y Pwyllgor yn ofalus natur a graddau cysylltiad y Cynghorydd Roberts â’r mater dan ystyriaeth, ac a oedd ganddo fuddiant personol ac, os felly, a oedd ganddo hefyd fuddiant sy’n rhagfarnu.

Roedd yr ystyriaeth yn cynnwys y canlynol:

- lleoliad ac agosrwydd eiddo’r Cynghorydd Roberts at Faes Chwarae’r Admiral
- lleoliad ac agosrwydd eiddo’r Cynghorydd Roberts at lôn fynediad a maes parcio Maes Chwarae’r Admiral
- y ffaith y sefydlwyd y gallai’r ystafelloedd newid a gynigiwyd yn flaenorol effeithio ar y draeniad yn eiddo’r Cynghorydd Roberts
- y posibilrwydd o fwy o barcio yng nghyffiniau eiddo’r Cynghorydd Roberts

O'u hystyried gyda'i gilydd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffactorau hyn yn creu buddiant personol clir yn y mater.

Yna cymhwysodd y Pwyllgor y prawf gwrthrychol ar gyfer buddiant sy'n rhagfarnu. Daeth i'r casgliad y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd, a chanddo wybodaeth am y ffeithiau perthnasol, yn ystyried bod y buddiant yn ddigon arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu barn y Cynghorydd Roberts am les y cyhoedd.

Wrth ddod i'r casgliad hwn, pwysleisiodd y Pwyllgor nad y prawf yw a oedd y Cynghorydd Roberts yn credu y gallai weithredu'n ddiduedd, ond a fyddai sylwedydd gwybodus yn rhesymol yn canfod risg y gallai ei gysylltiad personol â'r mater ddylanwadu ar ei farn. Felly, canfu'r Pwyllgor fod buddiant personol y Cynghorydd Roberts hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

5.2. Cyfarfod ar 8fed Chwefror 2024

Yn ystod y cyfarfod, datganodd y Cynghorydd Roberts fuddiant personol ac ymatalodd rhag pleidleisio, a dywedodd mai'r rheswm oedd ei fod yn credu y byddai rhai aelodau'n meddwl bod ganddo wrthdaro buddiannau. Arhosodd yn yr ystafell a chyfrannodd at y drafodaeth yn ystod yr eitem honno, a chytunodd iddo ddweud "dydyn nhw ddim yn cysylltu â'm draeniau i" yn y cyfarfod hwnnw. Fodd bynnag, gan fod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod y buddiant yn bersonol ac yn rhagfarnu, penderfynodd y Pwyllgor y dylai hefyd fod wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu yng nghyfarfod 8fed Chwefror 2024.

Gan fod y buddiant yn un a oedd yn rhagfarnu, dylai'r Cynghorydd Roberts fod wedi tynnu'n ôl yn llwyr o gyfarfod 8fed Chwefror 2024 a pheidio â chymryd unrhyw ran wrth ystyried y mater. Drwy gyfrannu at y drafodaeth, crëwyd canfyddiad cyhoeddus

nad oedd y broses benderfynu wedi'i chynnal gyda'r gwrthrychedd a'r annibyniaeth angenrheidiol sy'n ofynnol gan y Cod.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Cynghorydd Roberts wedi ymatal rhag pleidleisio.

5.3. Cyngor y Swyddog Monitro

Y diwrnod ar ôl y cyfarfod (9fed Chwefror 2024), ysgrifennodd y Cynghorydd Roberts at y Swyddog Monitro (drwy e-bost) i ofyn am gyngor ynghylch buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu. Atebodd y Swyddog Monitro ar 11eg Chwefror 2024, gan nodi'r sail i aelod unigol lunio barn ynghylch buddiant personol, a'r cwestiwn y dylai wedyn ei ofyn iddo'i hun ynghylch a oedd hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

Cydnabu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Roberts wedi mynd ati i geisio cyngor y Swyddog Monitro ynghylch buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu. Fodd bynnag, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y Cynghorydd Roberts, fel aelod profiadol, wedi methu â dehongli'r cyngor a roddwyd yn gywir ac wedi penderfynu mai buddiant personol yn unig oedd ganddo.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd fod y Cynghorydd Roberts wedi ceisio rhannu cyngor y Swyddog Monitro ddwywaith yn ystod cyfarfod 14eg Mawrth 2024. Roedd hyn yn dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r cyngor; fodd bynnag, nid oedd yn newid canfyddiad y Pwyllgor ei fod wedi'i ddehongli'n anghywir.

O ganlyniad, parhaodd y Cynghorydd Roberts i geisio dylanwadu ar benderfyniad Cyngor Tref Rhuddlan ynghylch Maes Chwarae'r Admiral drwy gefnogi'r Cynnig

Arbennig, a thrwy ddatgan buddiant personol yn unig a chymryd rhan lawn a phleidleisio yng nghyfarfod mis Mawrth 2024.

5.4. Y cynnig arbennig

Ar ôl cyfarfod 8fed Chwefror 2024, llofnododd y Cynghorydd Roberts gynnig arbennig a gyflwynwyd i'r clerc gan chwe aelod o Gyngor Tref Rhuddlan, a olygai y byddai eitem Clwb Pêl-droed Rhuddlan ynghylch defnyddio a datblygu Maes Chwarae'r Admiral yn cael ei dwyn yn ôl i gyfarfod 14eg Mawrth 2024. Ni ddatganodd y Cynghorydd Roberts fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu pan gefnogodd y cynnig arbennig.

Canfu'r Pwyllgor y dylai'r Cynghorydd Roberts fod wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu, ac na ddylai fod wedi cefnogi nac ymwneud â'r cynnig arbennig o gwbl.

5.5. Cyfarfod ar 14eg Mawrth 2024

Cydnabu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Roberts wedi datgan buddiant personol yng nghyfarfod 14eg Mawrth 2024. Fodd bynnag, canfu nad oedd y datganiad yn mynd yn ddigon pell oherwydd bod y buddiant hefyd yn un a oedd yn rhagfarnu.

Ar ôl penderfynu bod buddiant sy'n rhagfarnu yn bodoli, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Cynghorydd Roberts fod wedi tynnu'n ôl o gyfarfod 14eg Mawrth 2024 yn syth ar ôl datgan y buddiant, ac na ddylai fod wedi aros yn yr ystafell tra oedd y mater yn cael ei ystyried.

Cynigiodd y Cynghorydd Roberts ddarllen y cyngor a gafodd gan y Swyddog Monitro, a dywedodd fod y cyngor o'i flaen. Fodd bynnag, ni chaniataodd y Maer hynny a symudodd at y bleidlais; dywedodd y Cynghorydd Roberts ei fod yn siomedig nad oedd yn gallu darllen y cyngor gan ei fod yn credu y byddai'n helpu

eraill i ddeall ‘ein’ sefyllfa a pham, iddo ef, mai buddiant personol yn unig ydoedd, ‘o’m rhan i beth bynnag’.

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Cynghorydd Roberts wedi cynnig darllen y cyngor yn y cyfarfod, roedd y cyngor hwnnw o’i flaen ac roedd yn dal i honni bod ganddo fuddiant personol ond nid buddiant sy’n rhagfarnu.

Crëodd gweithredoedd y Cynghorydd Roberts risg sylweddol o danseilio hyder y cyhoedd fod penderfyniadau’r Cyngor yn cael eu gwneud yn wrthrychol, yn dryloyw ac er budd y cyhoedd, yn hytrach na chael eu dylanwadu gan fuddiannau preifat aelodau.

6. Sancsiwn

Wrth bennu’r sancsiwn priodol, dilynodd y Pwyllgor y broses bum cam a nodir yng Nghanllawiau Sancsiynau Panel Dyfarnu Cymru.

6.1. Difrifoldeb y toriad

Ystyriodd y Pwyllgor fod y methiant i ddatgelu a rheoli buddiant sy’n rhagfarnu yn briodol yn doriad difrifol o’r Cod, ac y byddai’n achosi niwed sylweddol i enw da Cyngor Tref Rhuddlan.

Ystyriodd y Pwyllgor fod gweithredoedd y Cynghorydd Roberts wrth ymatal rhag pleidleisio yng nghyfarfod mis Chwefror ac yna’n ceisio cyngor gan y Swyddog Monitro yn dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth briodol i lefel ei fuddiant yn y mater. Fodd bynnag, fel aelod profiadol, penderfynodd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Roberts ar fai am fethu â datgan buddiant sy’n rhagfarnu yn y ddau gyfarfod. Golygai hyn iddo gymryd rhan mewn mater a phleidleisio arno pan na ddylai fod wedi ymwneud ag ef o gwbl.

Nid oes unrhyw achosion blaenorol wedi’u cofnodi o’r Cynghorydd Roberts yn torri’r Cod Ymddygiad.

6.2. Dewis y sancsiwn posibl

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl sancsiynau a oedd ar gael, gan ddechrau â'r rhai a fyddai'n cael yr effaith leiaf. Daeth i'r casgliad na fyddai peidio â chymryd unrhyw gamau yn adlewyrchu difrifoldeb y toriadau yn ddigonol. Daeth hefyd i'r casgliad na fyddai cerydd yn ddigonol, o ystyried natur yr ymddygiad a'r diffyg dealltwriaeth ymddangosiadol o'i ddifrifoldeb. Mae'r Cynghorydd Roberts wedi cael hyfforddiant ar y Cod ac yn cytuno ei fod yn gyfarwydd ag ef, ond mae wedi parhau ac yn dal i fynegi'r farn na thorrodd y Cod.

Penderfynodd y Pwyllgor mai atal dros dro oedd y sancsiwn priodol a chymesur. Yn benodol, rhoddodd ystyriaeth i'w ganfyddiadau fod ymddygiad y Cynghorydd Roberts wedi tanseilio hyder y cyhoedd yng nghywirdeb, natur agored a didueddrwydd proses benderfynu'r Cyngor.

6.3. Ffactorau lliniarol a gwaethygol

Wrth bennu hyd y cyfnod atal dros dro, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth briodol i'r ffactorau lliniarol a gwaethygol canlynol:

Ffactorau lliniarol

- Hanes blaenorol o wasanaeth da, gan ddatblygu a chyfrannu'n sylweddol at ystod eang o fentrau a phrosiectau cymunedol
- Cydnabu'r Pwyllgor Safonau ei bod yn ymddangos bod y Cynghorydd Roberts wedi ceisio gweithredu'n ddidwyll i ddechrau drwy ddatgan buddiant personol yng nghyfarfod mis Chwefror 2024, ac wedyn drwy ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro
- Cydweithrediad â'r Swyddog Ymchwilio er nad oedd y cyfweliad yn iaith ddewisol y Cynghorydd Roberts
- Datgan ei barodrwydd i fynychu hyfforddiant yn y dyfodol
- Cydymffurfio â'r Cod ers y digwyddiadau a arweiniodd at y dyfarniad

Ffactorau gwaethygol

- Profiad hir fel Cynghorydd Tref a Sir, gan gynnwys gwasanaethu fel maer a chadeirydd dros y blynyddoedd; ar y sail honno, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl gwell dealltwriaeth o'r Cod a'i gymhwyso'n briodol
- Manteisio ar swydd o ymddiriedaeth
- Diffyg dealltwriaeth neu dderbyniad o'r camymddwyn
- Camddehongli cyngor y Swyddog Monitro yn ddi-hid
- Gweithred sydd wedi dwyn anfri ar y Cyngor

Penderfynodd y Pwyllgor y dylid atal y Cynghorydd Roberts dros dro o Gyngor Tref Rhuddlan am ddau fis. Argymhellodd yn gryf hefyd y dylai, ar ôl diwedd y cyfnod atal, ymgymryd â hyfforddiant pellach ar y Cod.